Gyrfa Cymru
Careers Wales

# DYFODOL DISGLAIR

Ein gweledigaeth ar gyfer 2021-26

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 3 | Amdanom ni |
| 4 | Ein gweledigaeth |
| 6 | Ein gwerthoedd a'n hegwyddorion |
| 8 | Neges gan y cadeirydd a'r prif weithredwr |
| 10 | Gwneud gwahaniaeth |
| 12 | Pedwar nod i sicrhau dyfodol disglair |
| 14 | Nod un |
| 16 | Nod dau |
| 18 | Nod tri |
| 20 | Nod pedwar |
| 22 | Ein canlyniadau strategol |
| 24 | Model cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth i bobl o bob oed |
| 26 | Cefnogi ein cwsmeriaid i greu dyfodol disglair |
| 28 | Ein huchelgeisiau digidol |
| 32 | Sgiliau ar gyfer y dyfodol |
| 34 | Cysylltu â chyflogwyr i greu dyfodol disglair |
| 36 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
| 38 | Cyflawni agenda Cymru |
| 40 | Cydweithio a phartneriaethau |
| 42 | Cefnogi pob person ifanc i greu dyfodol disglair |
| 44 | Neb yn cael ei adael ar ôl |
| 46 | Gweledigaeth ar gyfer cyfnod heriol |
| 48 | Gweledigaeth sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth a data |
| 50 | Sicrhau gwerth a mesur effaith |
| 52 | Model theori newid |




# Amdanom ni


Mae Career Choices Dewis Gyrfa Ltd yn masnachu fel Gyrfa Cymru Careers Wales. Mae'r cwmni'n is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru ac yn gyfrwng i gyflawni ei rhwymedigaeth statudol i sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd ar gael i blant a phobl ifanc hyd at 19 oed.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym hefyd wedi ymateb yn uniongyrchol i anghenion cynyddol oedolion drwy'r gwasanaeth Cymru'n Gweithio.

Rydym yn cyflogi dros 600 o staff sy'n cynnwys y rhai yn Gyrfa Cymru a'n gwasanaeth Cymru'n Gweithio. Mae'r staff yn gweithio mewn cyfanswm o 30+ o leoliadau o amgylch Cymru.

# EIN GWELEDIGAETH

creu dyfodol disglair i bobl Cymru





# EIN DIBEN

cefnogi pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru i greu dyfodol disglair. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddarparu mynediad at gymorth gyrfaoedd diduedd o ansawdd uchel sy'n cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau addysg, economaidd a llesiant unigolion



Gyrfa Cymru
Careers Wales

## Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- Barhau i ysgogi pobl i ddysgu
- Eu hannog i beidio â diystyru cyfleoedd yn rhy gynnar
- Ehangu gorwelion a herio rhagdybiaethau anghywir
- Creu profiadau perthnasol o'r byd gwaith ac amlygiad perthnasol iddo
- Cyfrannu at well canlyniadau addysg, economaidd a chymdeithasol.

# EIN GWERTHOEDD

Rydym yn rhoi anghenion y cwsmer wrth wraidd yr hyn a wnawn

Rydym yn cydweithio ag eraill i gyflawni cyd-nodau

Rydym yn arloesol, wedi'n galluogi gan dechnoleg ac yn cael ein harwain gan ddealltwriaeth






# EIN HEGWYDDORION

**Diduedd**

Gweithredu fel brocer gonest gan gefnogi dewisiadau a phenderfyniadau gyrfa

**Personol**

Sicrhau bod ein gwasanaeth cymorth gyrfaoedd cyfunol wedi'i deilwra'n benodol i anghenion unigolion

**Cynhwysol**

Ymrwymedig i sicrhau cynhwysiant, tegwch ac amrywiaeth

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Creu dyfodol disglair i bobl Cymru

**Rydym yn falch o gyflwyno ein gweledigaeth newydd, a ddatblygwyd gyda'n staff, ein cwsmeriaid a'n partneriaid fel datganiad o'n cyd-uchelgais i sicrhau dyfodol disglair i bobl Cymru.**

Efallai mai'r unig sicrwydd sydd gennym wrth baratoi'r weledigaeth strategol hon yw y bydd pobl Cymru, ein busnesau a'n cymunedau yn teimlo effaith economaidd a chymdeithasol y pandemig Covid-19 am flynyddoedd i ddod.

Ar raddfa genedlaethol a rhyngwladol, mae'r adferiad o'r dirwasgiad yn sgil y pandemig yn galw am newidiadau sylfaenol mewn agweddau tuag at waith a sgiliau.

Mae ein gweledigaeth yn nodi rôl hanfodol ein gwasanaeth cymorth gyrfaoedd dwyieithog, annibynnol a diduedd i bobl o bob oed wrth gefnogi adferiad economaidd y genedl, wedi'i ategu gan ein cred bod yn rhaid i ni ganolbwyntio ar ddyfodol disglair yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Drwy Cymru'n Gweithio, byddwn yno i helpu pobl i oresgyn rhwystrau drwy ein gwasanaeth cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth, a fydd wedi'i bersonoli i gefnogi unigolion i feithrin y sgiliau, yr hyder a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i newid eu stori.

Byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r rhai sydd eu hangen fwyaf, gan estyn allan i gefnogi'r rhai nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn un o'n gwerthoedd craidd fel sefydliad. Gwyddom na allwn gyflawni ein nodau ar ein pen ein hunain a byddwn yn datblygu partneriaethau cryfach gyda'n rhanddeiliaid ac yn cynyddu ein gwaith allgymorth, cydleoli, cyd-greu a chydweithio mewn cymunedau ledled Cymru.



Wrth i ni edrych i'r dyfodol, byddwn yn chwarae ein rhan i sicrhau bod gan ein heconomi doreth o bobl ifanc fedrus, llawn cymhelliant yn barod i gyflawni eu potensial. Byddwn yn cymryd camau i roi'r cyfle gorau i bawb ddod o hyd i swyddi teg a gweddus gyda rhagolygon hirdymor, a chadw'r swyddi hynny.

Byddwn yn cefnogi pobl ifanc i godi eu dyheadau, ehangu eu gorwelion a bod yn ymwybodol o'r holl gyfleoedd a'r llwybrau sydd ar gael iddynt. Byddwn yn dechrau'r gweithgaredd hwn yn gynharach gyda mentrau gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith (GPhCG) newydd ar gyfer ysgolion cynradd a byddwn yn cynyddu ein hymgysylltiad â rhieni a gofalwyr. Byddwn yn cefnogi ysgolion ac athrawon i gyflawni'r Cwricwlwm i Gymru a rôl allweddol GPhCG da o ran cefnogi cyrhaeddiad a chyflawniadau addysgol.

Bydd ein gwasanaethau yno i bobl ifanc ac oedolion, gan eu paratoi ar gyfer yr adegau pwysig - y cyfnodau pontio allweddol hynny yn eu taith gyrfa lle byddant yn gwneud penderfyniadau a fydd yn cael effaith ar eu nodau yn y dyfodol.

Byddwn yn adeiladu ar ein perthnasoedd rhagorol â'r gymuned fusnes yng Nghymru, gan gynyddu'r cyfleoedd i ysbrydoli ac ysgogi pobl ifanc drwy roi mwy o ddealltwriaeth iddynt o fyd gwaith a'r sgiliau sydd eu hangen i lwyddo yn y dyfodol.

Yn bwysicaf oll, yn ategu ein gweledigaeth mae ein gweithlu proffesiynol, medrus ac ymroddedig. Fel gwasanaeth gyrfaoedd cenedlaethol, mae'n fraint cael lle mewn ysgolion, cymunedau, ar y stryd fawr ac mewn gweithleoedd ledled Cymru.

Rydym mewn sefyllfa unigryw i gefnogi pobl Cymru drwy ddarparu gwasanaeth gyrfaoedd cenedlaethol o'r radd flaenaf sy'n arwain y sector. Byddwn yn sicrhau, wrth i ni greu dyfodol disglair i unigolion yng Nghymru, nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.



**Debra Williams,**
**Cadeirydd**

**Nikki Lawrence,**
**Prif Weithredwr**

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Gwneud gwahaniaeth

- **I bobl ifanc:** gwell dealltwriaeth o'r byd gwaith, y sgiliau sydd eu hangen i lwyddo a mwy o ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, wedi'u hategu gan fynediad at wasanaeth cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth diduedd
- **I oedolion:** mynediad at wasanaeth cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth proffesiynol, diduedd i'w helpu i oresgyn rhwystrau a symud ymlaen at waith a hyfforddiant teg a gweddus
- **I fusnesau:** drwy ein gwaith gydag ysgolion, colegau a chymunedau, bydd gan gyflogwyr gysylltiadau agosach â gweithlu'r dyfodol. Rydym yn cynorthwyo busnesau a gweithwyr sy'n wynebu diswyddiadau, gan gefnogi ailsgilio ac uwchsgilio
- **I ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant a phrifysgolion:** dysgwyr wedi'u hysgogi a'u hysbrydoli a chanddynt gynlluniau clir ar gyfer eu gyrfaoedd, gan gefnogi gwell cyrhaeddiad a chynnydd
- **I Lywodraeth Cymru:** mae cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth yn cefnogi gweithrediad llwyddiannus y farchnad lafur, yn gwella canlyniadau economaidd, yn cefnogi a hwyluso symudedd cymdeithasol ac yn gwella llesiant pobl ifanc ac oedolion.





Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Sicrhau dyfodol disglair: ein pedwar nod

**Rydym wedi datblygu pedwar nod strategol a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein gweledigaeth o greu dyfodol disglair i bobl ifanc ac oedolion.**

## Y nodau hyn yw:

1. Darparu gwasanaeth cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth dwyieithog, cynhwysol a diduedd i bobl Cymru

2. Datblygu ein gwaith gyda chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant ac entrepreneuriaid i ddeall eu gofynion sgiliau a'u cyfleoedd i bobl ifanc ac oedolion

3. Cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cwricwlwm i Gymru a chyfrannu at gyflawni'r pedwar diben

4. Datblygu gweithlu medrus, ymgysylltiol ac ystwyth yn Gyrfa Cymru a'i alluogi i ddarparu gwasanaethau sy'n perfformio'n dda ac sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# NOD UN

Darparu gwasanaeth cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth dwyieithog, cynhwysol a diduedd i bobl Cymru

## Ynglŷn â'r nod hwn

**Mae cefnogi pobl i gael gwaith cynaliadwy a'u galluogi i chwarae eu rhan yn economi ffyniannus Cymru wrth wraidd popeth a wnawn.**

Boed yn ysbrydoli a chymell pobl ifanc i gyflawni eu nodau gyrfa yn yr ysgol neu'r coleg neu'n helpu oedolion i oresgyn rhwystrau a datblygu sgiliau newydd, gwyddom fod cefnogi pobl i ddod o hyd i waith o fudd i'r unigolyn, o fudd i'r economi ac o fudd i Gymru.

Bydd effaith economaidd y pandemig Covid-19 yn cael ei deimlo am flynyddoedd lawer. Gwyddom fod yna bobl a fydd yn cael eu heffeithio'n anghymesur ac y bydd angen gwasanaethau cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth arnynt yn fwy nag erioed. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddeall y rhwystrau i ddysgu neu i gael gwaith a mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny, ac yn ceisio cynnig cymorth wedi'i deilwra i grwpiau difreintiedig.

Gwyddom mai'r ffordd orau o gyflawni ein nodau yw drwy gydweithio - gyda rhieni, athrawon, cyflogwyr a phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Byddwn yn cynyddu ein presenoldeb mewn cymunedau ledled Cymru, yn cryfhau ein partneriaethau ac yn ymchwilio i gyfleoedd newydd ar gyfer cydweithio, cydweithredu a chydleoli.

Byddwn yn ymgysylltu â rhieni a gofalwyr i'w helpu i gefnogi plant, codi eu dyheadau ac ehangu eu gorwelion. Byddwn yn rhagweithiol o ran herio stereoteipiau a rhagfarn ar draws y farchnad lafur. Drwy ein gwaith mewn ysgolion, colegau a gweithgareddau marchnata byddwn yn newid y canfyddiadau ynghylch addasrwydd rhai llwybrau a sectorau.

Er mwyn gwneud y penderfyniadau cywir, mae angen y wybodaeth gywir ar bobl. Bydd ein gwaith gyda phobl ifanc ac oedolion ar gyfnodau pontio allweddol yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r holl gyfleoedd a llwybrau sydd ar gael iddynt - gan gynnwys prentisiaethau, hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth.

Ategir hyn gan fynediad at wybodaeth amserol, perthnasol a chyfoes am y farchnad lafur yng Nghymru, gan gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o sgiliau hanfodol a galwedigaethau. Drwy wneud dewisiadau gwybodus sy'n iawn i'r unigolyn gallwn alluogi pobl i bontio'n gadarnhaol, gan helpu i leihau nifer y bobl sy'n rhoi'r gorau iddi ac sy'n mynd a dod yn y sector ôl-16.

A thrwy ein hymrwymiad i arloesi a gwella ein gwasanaethau'n barhaus, byddwn yn defnyddio technoleg i wella ein gwasanaethau gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn fodern, yn hygyrch ac yn canolbwyntio ar y cwsmer.

**Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn:**

- **cefnogi pobl ifanc ac oedolion i bontio'n gadarnhaol i addysg, gwaith a hyfforddiant, gan gynnwys prentisiaethau a deall y sgiliau sy'n ofynnol i lwyddo yn y farchnad lafur a chyfrannu at economi Cymru yn y dyfodol**
- **cefnogi cwsmeriaid y mae angen lefelau uwch o gefnogaeth arnynt i bontio'n gadarnhaol i ddarpariaeth briodol**
- **codi ymwybyddiaeth cwsmeriaid o addysg, gwaith a hyfforddiant a chyfleoedd eraill i wneud cynnydd**
- **gwella mynediad at fanteision cymorth ar ffurf cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth drwy gydweithredu ac ymgysylltu â phartneriaid a dylanwadwyr.**

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# NOD DAU

Datblygu ein gwaith gyda chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant ac entrepreneuriaid i ddeall eu gofynion o ran sgiliau a'r cyfleoedd i bobl ifanc ac oedolion

## Ynglŷn â'r nod hwn

**Cysylltiadau cryf ac effeithiol â chyflogwyr yw un o'r ffactorau pwysicaf wrth ysbrydoli ac ysgogi pobl a'u paratoi i gymryd eu lle yn y byd gwaith sy'n newid yn gyflym.**

Drwy Cymru'n Gweithio byddwn yn meithrin cysylltiadau agosach rhwng cyflogwyr ac yn gweithio gyda nhw i fynd i'r afael â blychau mewn recriwtio a sgiliau drwy adnabod cyfleoedd i gynorthwyo ein cwsmeriaid i gael gwaith.

Mae galluogi pobl ifanc i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth o fyd gwaith yn un o'r elfennau hanfodol o ran eu hysbrydoli a'u hysgogi i gynllunio eu nodau gyrfa.

Drwy ein gweithgaredd cysylltu â chyflogwyr mewn ysgolion ledled Cymru, rydym yn galluogi pobl ifanc i feithrin mwy o ymwybyddiaeth o'r hyn i'w astudio i gyd-fynd â'u huchelgeisiau gyrfa a'r gwahanol lwybrau a chyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Mae manteision i gyflogwyr drwy gael cyfle i feithrin cysylltiadau cymunedol a pherthnasoedd cryfach â'u gweithlu yn y dyfodol. Gallant hefyd ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc ynghylch y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen mewn gweithle modern.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn cefnogi gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ac yn cynnig ystod o weithgareddau GPhCG i ysgolion a fydd wedi'u cynllunio i ddiwallu eu hanghenion lleol.

Bydd ein cynnig yn parhau i esblygu ac i fod yn seiliedig ar anghenion ein hysgolion, ein dysgwyr a'n busnesau ond gallai gynnwys hwyluso ymweliadau a sgyrsiau gyda gweithwyr, ffeiriau gyrfaoedd, gweminarau a phrofiad gwaith wedi'i deilwra drwy'r prosiect Sbardun*. Byddwn hefyd yn treialu wythnos genedlaethol, rithwir GPhCG - ymgyrch genedlaethol proffil uchel i ddarparu wythnos o weithgareddau GPhCG rhithwir ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd.

Mae'r dyfodol yn dudalen wag i bobl ifanc ac rydym am iddyn nhw ysgrifennu eu straeon eu hunain. Drwy ein prosiectau cydweithredol ag ysgolion, cyflogwyr, rhieni/gofalwyr gallwn eu paratoi ar gyfer y dyfodol drwy sicrhau bod ganddynt ddyheadau mawr, bod eu gorwelion yn eang a'u bod yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial a chwarae eu rhan mewn dyfodol disglair.

**Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn:**

- **Hysbysu ac ysgogi pobl ifanc ynglŷn â'r byd gwaith drwy ymgysylltu â chyflogwyr a modelau rôl**
- **Codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r sgiliau sydd eu hangen ar sectorau sy'n flaenoriaeth economaidd a sut maen nhw'n cysylltu â'r cwricwlwm.**

* Ariennir Sbardun drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop a disgwylir iddo ddod i ben ym mis Mawrth 2023.

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# NOD TRI

## Cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cwricwlwm i Gymru a chyfrannu at gyflawni'r pedwar diben

## Ynglŷn â'r nod hwn

**Y Cwricwlwm i Gymru yw'r cyfrwng allweddol ar gyfer darparu addysg yn ein hysgolion. Y pedwar diben yw'r gydweledigaeth a'r dyhead i bob plentyn a pherson ifanc ddod yn:**

- **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau**
- **cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith**
- **dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd**
- **unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.**

Mae gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith yn elfen hanfodol o'r Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn cydnabod y bydd cymhelliant, hunanymwybyddiaeth, ymwybyddiaeth o gyfleoedd, gwneud penderfyniadau, ymrwymiad a gwydnwch yn sgiliau a fydd yn helpu dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben.

Ceir ffocws ar ddatblygu sgiliau ehangach a pharatoi pobl ifanc ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, gan eu helpu i godi eu dyheadau a datblygu ymwybyddiaeth o ystod o ddewisiadau gyrfa.

Byddwn yn cefnogi gweithredu canllawiau statudol GPhCG drwy ddarparu cymorth ymgynghori i bob arweinydd ysgol a datblygu rhaglen o hyfforddiant proffesiynol i athrawon er mwyn datblygu capasiti GPhCG yn ein hysgolion.

Rydym hefyd am ddathlu rhagoriaeth GPhCG yn ein hysgolion i gydnabod perfformiad da a chefnogi codi safonau ledled Cymru. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant ein gwobr GPhCG er mwyn datblygu hyn.

Bydd addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith cadarnhaol yn helpu dysgwyr i ddatblygu cynlluniau gyrfa, meithrin hunanymwybyddiaeth, codi eu cymhelliant a chynyddu eu gwybodaeth am y farchnad lafur.

Byddwn yn gweithio gydag ysgolion cynradd i godi ymwybyddiaeth plant o'r byd gwaith yn gynharach, gan godi ymwybyddiaeth o swyddi, manteision gwaith a herio stereoteipiau - addysg a fydd yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus a phriodol yn yr ysgol uwchradd.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r holl ddysgwyr, athrawon a rhanddeiliaid yn y bennod hynod gyffrous hon er mwyn cyflwyno GPhCG yng Nghymru.

**Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn:**

- **darparu gwasanaeth dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i feithrin sgiliau, gwybodaeth a hyder gweithwyr proffesiynol yn y byd addysg i ddarparu GPhCG effeithiol**
- **dylunio a chyflwyno gwobr GPhCG newydd am ragoriaeth yn y cwricwlwm**
- **cefnogi'n rhagweithiol y gwaith o weithredu canllawiau statudol GPhCG**

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# NOD PEDWAR

Datblygu gweithlu medrus, ymgysylltiol ac ystwyth ar gyfer Gyrfa Cymru a'i alluogi i ddarparu gwasanaethau sy'n perfformio'n dda ac sy'n canolbwyntio ar y cwsmer

## Ynglŷn â'r nod hwn

**Yn ein galluogi i gyflawni ein gweledigaeth bydd ein gweithlu hynod fedrus, ymgysylltiol ac ystwyth - un sy'n driw i'n gwerthoedd o roi anghenion ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn.**

Credwn fod buddsoddi yn ein pobl yn sicrhau gwell canlyniadau i gwsmeriaid a byddwn yn parhau i wneud hyn drwy ein hymrwymiad i ddysgu a datblygu.

Byddwn yn datblygu gweithlu ymgysylltiedig sydd wedi'i rymuso drwy sicrhau bod gennym arweinyddiaeth gref, gweledigaeth gymhellol a bod gan weithwyr lais cryf.

Mae technoleg yn parhau i newid y byd o'n cwmpas yn gyflym, gan greu cyfleoedd newydd i wella'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig i gwsmeriaid a chodi disgwyliadau.

Rydym eisoes ar gam datblygedig o ran meithrin ein galluoedd digidol newydd, datblygu sgiliau a hyder ein staff drwy raglenni hyfforddi a darparu technoleg iddynt sy'n gwella'n barhaus, sy'n ddiogel ac yn hawdd ei defnyddio.

Byddwn yn parhau i ymateb i anghenion ein cwsmeriaid. Lle mae tystiolaeth ei fod yn ychwanegu gwerth, byddwn yn datblygu gwasanaethau digidol newydd, hygyrch, sydd wedi'u diogelu at y dyfodol, gan gynnwys ymchwilio i botensial deallusrwydd artiffisial a thechnoleg awtomataidd. Byddwn yn gweithio'n unol â safonau digidol Cymru a bydd ein gwaith yn cael ei amlinellu yn ein map digidol. Byddwn yn cefnogi'r rhai sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol ac yn sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Drwy weithredu system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid byddwn yn datblygu prosesau newydd, mwy effeithlon a fydd yn ein helpu i ddarparu gwell gwasanaethau ac yn rhyddhau adnoddau ar gyfer darparu mwy o wasanaethau wyneb-yn-wyneb i gwsmeriaid.

Byddwn yn datblygu dolenni adborth amser real i ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid. Byddwn yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac offer digidol i gyfathrebu ac ymgysylltu â chwsmeriaid yn effeithiol drwy dargedu'r gynulleidfa iawn, ar y sianel iawn, gyda'r cynnwys iawn, ar yr amser iawn.

Byddwn yn datblygu platfformau a dangosfyrddau newydd a fydd yn ein galluogi i ddeall i ba raddau yr ydym yn diwallu anghenion cwsmeriaid ac yn sicrhau y gellir gwella gwasanaethau yn barhaus ar sail tystiolaeth a dealltwriaeth o gwsmeriaid.

Fel diwylliant sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, bydd ein trawsnewidiad yn cael ei fesur ar sail pa mor dda yr ydym yn diwallu anghenion ein defnyddwyr. Byddwn yn gweithio'n agored ac yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio ag eraill, gan gynnwys cryfhau ein cysylltiadau o fewn y DU ac yn rhyngwladol i gyflawni ein nodau i alluogi pobl Cymru i greu dyfodol disglair drwy wasanaethau gyrfaoedd sy'n barod ar gyfer y dyfodol ac wedi'u galluogi'n ddigidol.

### Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn:

- **datblygu gwasanaethau wedi'u personoli, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, wedi'u gwella gan dechnoleg, sy'n ymatebol i anghenion defnyddwyr ac yn hygyrch i bawb**
- **creu gweithlu Gyrfa Cymru medrus, ymgysylltiedig, amrywiol ac ystwyth sy'n gynhwysol ac yn cefnogi llesiant gweithwyr**
- **gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i drawsnewid ein ffyrdd o weithio a datblygu sgiliau a galluoedd digidol holl weithwyr Gyrfa Cymru**
- **seilio ein datblygiadau o ran polisi a gwasanaethau ar ein dealltwriaeth o gwsmeriaid, gwybodaeth fusnes, data a dadansoddeg.**

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# CANLYNIADAU STRATEGOL

Er mwyn cyflawni ein pedwar nod, byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni ein canlyniadau strategol.

Cefnogi pobl ifanc ac oedolion i bontio'n gadarnhaol i addysg, gwaith a hyfforddiant, gan gynnwys prentisiaethau a deall y sgiliau sy'n ofynnol i lwyddo yn y farchnad lafur a chyfrannu at economi Cymru yn y dyfodol.

Galluogi cwsmeriaid sydd wedi elwa o lefelau uwch o gefnogaeth i bontio'n gadarnhaol i ddarpariaeth briodol.

Codi ymwybyddiaeth cwsmeriaid o addysg, gwaith a hyfforddiant a chyfleoedd eraill i wneud cynnydd.

Darparu gwasanaethau wedi'u personoli, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, wedi'u gwella gan dechnoleg, sy'n ymatebol i anghenion defnyddwyr ac yn hygyrch i bawb.

Creu gweithlu Gyrfa Cymru medrus, ymgysylltiol, amrywiol ac ystwyth iawn.

Hysbysu ac ysgogi pobl ifanc ynglŷn â'r byd gwaith drwy ymgysylltu â chyflogwyr a modelau rôl.

Gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i drawsnewid ein ffyrdd o weithio a datblygu sgiliau a galluoedd digidol holl weithwyr Gyrfa Cymru.

Seilio ein datblygiadau o ran strategaeth, polisi a gwasanaeth ar ein dealltwriaeth o gwsmeriaid, gwybodaeth fusnes, data a dadansoddeg.

Gwella mynediad at fanteision cymorth ar ffurf cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth drwy gydweithredu ac ymgysylltu â phartneriaid a dylanwadwyr.

Codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r sgiliau sydd eu hangen ar sectorau sy'n flaenoriaeth economaidd a sut maen nhw'n cysylltu â'r cwricwlwm.

Gwella capasiti ysgolion ac Arweinwyr Gyrfaoedd i ddarparu GPhCG o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Model cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth i bobl o bob oed

O'r dewisiadau dysgu y mae pobl ifanc yn eu gwneud yn yr ysgol i ailhyfforddi ar gyfer gyrfa newydd yn ddiweddarach mewn bywyd, rydym yma ar gyfer yr adegau pwysig.

Mae ein cynnig pob-oed yn cydnabod nad yw pawb yn datblygu yn yr un ffordd nac yn wynebu'r un heriau ond mae yno i bobl ar yr adegau allweddol hynny pan fydd angen cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth proffesiynol, diduedd arnynt.

Bydd ein cynnig wedi'i dargedu yn rhoi'r gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen arnynt i'r bobl ifanc hynny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg, gwaith a hyfforddiant er mwyn pontio'n llwyddiannus i addysg a gwaith.

## CYNRADD

- **Cyflwyniad i GPhCG a gwasanaethau Gyrfa Cymru**
- **Dysgwyr:** cyflwyniad i GPhCG, Wythnosau GPhCG Rhithwir
- **Rhieni:** cyflwyniad i Gyrfa Cymru, meithrin dealltwriaeth o wybodaeth am y farchnad lafur a sut i gefnogi eu plant
- **Ysgolion:** dysgu proffesiynol cyfunol i athrawon, adnoddau ar gael ar Hwb

## UWCHRADD ( Blynyddoedd 7-9 )

- **Ehangu gorwelion, codi dyheadau**
- **Dysgwyr:** gweminarau, wythnosau GPhCG rhithwir, cysylltu â chyflogwyr, gwaith grŵp, cymorth gydag opsiynau a chyflwyniad i gwisiau gyrfa.
- **Rhieni:** ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, grwpiau ffocws, gwahoddiadau i ddigwyddiadau GPhCG, gwella dealltwriaeth o wybodaeth a thueddiadau'r farchnad lafur
- **Ysgolion:** dysgu proffesiynol, gwobr GPhCG, cymorth gyda dewis opsiynau ac adolygiadau pontio ADY.

## UWCHRADD ( Blynyddoedd 10-11 )

- **Gwneud penderfyniadau gwybodus ac effeithiol**
- **Dysgwyr:** cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth
- Asesiad Gwirio Gyrfa
- Cefnogaeth ddwys i grwpiau wedi'u targedu gan gynnwys pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Gweithgareddau cysylltu â chyflogwyr fel wythnosau rhithwir GPhCG, gweminarau, ymweliadau â safleoedd cyflogwyr a gwyliau gyrfaoedd
- Cefnogaeth i'r rhai sy'n ymuno â'r farchnad lafur
- **Rhieni:** Ymgysylltu â rhieni gan gynnwys mynychu digwyddiadau ysgol, gwahoddiadau i ddigwyddiadau gyrfaoedd ac ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol
- Treialu prosiectau cymunedol er mwyn ymgysylltu'n rhagweithiol â rhieni
- **Ysgolion:** cefnogaeth ar gyfer dysgu proffesiynol, gwobr GPhCG, cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth, cyfnodau pontio a hynt disgyblion

## 16-18

- **Cefnogi trefniadau pontio effeithiol i addysg a gwaith**
- Adnabod ac asesu'r gefnogaeth sydd ei hangen yn gynnar
- Cymorth parhaus ar ffurf cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth i grwpiau wedi'u targedu gan gynnwys pobl ifanc ag ADY
- Cyfeirio at lwybrau gyrfa priodol fel cyflogaeth, prentisiaeth, gwirfoddoli a chyfleoedd hyfforddi
- Cefnogaeth i wella sgiliau cyflogadwyedd fel mynediad i'r Academi Sgiliau i Lwyddo
- Bwletinau swyddi gwag a gwahoddiadau i ffeiriau swyddi/ hyfforddiant
- Dyrannu cynghorwyr arbenigol i bob cwsmer haen 3
- **Ysgolion/Colegau AB:** Ymgyrchoedd wedi'u targedu ar gyfer y rhai sydd angen ein cefnogaeth gan gynnwys presenoldeb ffisegol mewn adeiladau AB ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn; cynghorydd gyrfa penodedig ar gyfer pob chweched dosbarth a champws AB.

## OEDOLION

- **18+ cefnogi trefniadau pontio effeithiol drwy nodi rhwystrau a thrwy atgyfeiriadau priodol**
- Mynediad at gymorth Cymru'n Gweithio yn bersonol, mewn lleoliad a fydd yn addas i anghenion yr unigolyn, neu'n ddigidol
- Cyfeirio pobl at hyfforddiant, cyflogaeth a chymorth ychwanegol, a chymorth i wneud ceisiadau am swydd
- Cyngor ar ffynonellau cyllid fel y bo'n briodol e.e. ReAct, Mynediad, Cyfrif Dysgu Personol (CDP), ac ati
- Ymgyrchoedd marchnata rheolaidd wedi'u hanelu at gwsmeriaid â blaenoriaeth

# CEFNOGI EIN CWSMERIAID I GREU DYFODOL DISGLAIR

"Fe wnaethoch i mi deimlo fy mod i'n fwy na rhif a bod rhywun yn poeni amdanaf. Allwn i ddim bod wedi teimlo'n fwy digalon pan ddaeth y swydd honno i ben. Roeddwn i mewn lle tywyll, ond wedyn fe roesoch yr allwedd i mi er mwyn agor y drws - a dyma fynd amdani. Rydych chi wedi rhoi hyder i mi yn fy ngallu fy hun, a nawr mae'r dyfodol yn llawer mwy disglair!"

**John 61**

Yn ailhyfforddi fel cogydd rhoséd

"Cyn i mi gael sgyrsiau gyda'r cynghorydd gyrfa, doedd gen i ddim syniad beth oeddwn i eisiau ei wneud, ond roeddwn i'n gwybod nad oeddwn i eisiau mynd i'r coleg. Roedd y ffaith bod y cynghorydd yn deall pam nad oeddwn i eisiau mynd i'r coleg yn tawelu fy meddwl. Fe wnaeth fy helpu i glirio fy meddwl a chanolbwyntio ar yr hyn roeddwn i eisiau ei wneud."

**Abbie 16**

Yn dechrau prentisiaeth

"Heb help Gyrfa Cymru, byddwn wedi cael trafferth. Roedd gen i fwy o ffydd yn y wybodaeth a gefais gan y cynghorydd na'r hyn roeddwn i'n ei gael drwy chwilio'r rhyngrwyd – mae gormod o wybodaeth ffug ar y we! Roedd fy nghynghorydd yn gwybod beth roedd hi'n ei wneud, roedd ganddi gyfoeth o wybodaeth ac mae gen i ffydd yn ei hatebion."

**Mandy 18**

Wedi cofrestru ar hyfforddeiaeth

Cymru'n Gweithio
#newiddystori

"Fyddwn i byth wedi dod o hyd i'm swydd hebddyn nhw. Doedd gen i ddim rhyngrwyd, dim teledu, felly roedd y cysylltiad â'r cynghorydd yn fy nghadw fi i fynd. Byddwn yn rhoi 11/10 i'r gwasanaeth ac yn ei argymell i bawb – fe ddwedais wrth fy ffrind am gysylltu â Gyrfa Cymru gan y byddai'n ei helpu."

**Xolani 55**

Wedi cael swydd amser llawn yn y maes gofal

# EIN HUCHELGEISIAU DIGIDOL

**Yn Newid Bywydau fe wnaethom amlinellu gweledigaeth ddigidol newydd ar gyfer Gyrfa Cymru a sut y byddai'n cael ei chyflawni.**

**Drwy gyflawni Dyfodol Disglair byddwn yn adeiladu ar ein cynnydd, gan ganolbwyntio ar themâu tebyg ond gyda mwy o uchelgais a chysoni ein trawsnewidiad â'r Strategaeth Ddigidol i Gymru.**

## GWASANAETHAU DIGIDOL

Caiff gwasanaethau digidol rhagorol eu cynllunio er mwyn diwallu anghenion y bobl sy'n eu defnyddio. Maent yn gwella'n barhaus ac ar gael i bawb.

Bydd moderneiddio ein gwasanaethau yn cynnwys ffocws ar bersonoli - y cam cyffrous nesaf yn ein hymgyrch i gefnogi'r bobl iawn gyda'r gwasanaeth iawn ar yr adeg iawn.

Byddwn yn defnyddio dull mwy soffistigedig o segmentu cwsmeriaid er mwyn cynnig arlwy marchnata a chyfathrebu fwy personol - un a all ysgogi newidiadau cadarnhaol drwy ddeunydd mwy amserol, perthnasol a diddorol.

Fel rhan o'n gwaith yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, byddwn yn datblygu proffil ar gyfer pobl ifanc a fydd yn eu galluogi i bersonoli eu taith addysg gyrfaoedd gyda chyfleoedd i fyfyrio a chofnodi profiadau a datblygu'r rhain i lywio eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol drwy fynediad hawdd i'n hamrywiaeth o offer, adnoddau a gwybodaeth rheoli gyrfa.

Bydd ein tîm arloesi yn adeiladu ar ein taith tuag at ymgorffori diwylliant, arferion a thechnolegau'r oes ddigidol. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant ein hadnoddau â nodweddion gêm, gan ehangu ein defnydd o blatfformau fel Minecraft i gefnogi pobl ifanc ac oedolion.

Drwy ein hymrwymiad i ddatblygiad ystwyth, byddwn yn mabwysiadu'r agwedd nad oes dim gwasanaeth byth yn gyflawn, a byddwn bob amser yn dysgu ac yn gwella. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio'n ddi-baid ar ddiwallu anghenion defnyddwyr a byddwn yn seilio ein penderfyniadau ar y ddealltwriaeth a gafwyd drwy weithgareddau fel ymchwil defnyddwyr a dadansoddeg.



## CYDWEITHIO A DATA

Gan weithio gyda'n partneriaid yn Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid yn y sectorau addysg a busnes a phobl ifanc, byddwn yn datblygu cynnig cwbl unigryw, wedi'i deilwra'n benodol i Gymru, a all aros gyda phobl drwy gydol eu bywydau academaidd a phroffesiynol a'u helpu i greu eu dyfodol disglair eu hunain.

Byddwn yn ceisio datblygu hyb gwybodaeth i wneud y defnydd gorau o'n data. Rydym mewn sefyllfa unigryw ym mhob ysgol a chymuned yng Nghymru i roi cipolwg ar nodau gyrfa a dyheadau pobl ifanc a'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu.

Byddwn yn gweithio'n agored ac ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid a byddwn yn mabwysiadu safonau digidol Cymru ac yn chwarae rhan weithredol yn uchelgeisiau'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol.

Lle bo modd, byddwn yn rhannu codau, yr hyn a ddysgir a chynhyrchion eraill y byddwn yn eu creu. Rydym hefyd yn rhannu ein data, yn ddiogel, er mwyn galluogi eraill i greu gwerth cymdeithasol ohonynt.

## CYNHWYSIANT A HYGYRCHEDD

Lle y nodir gwasanaethau a ffyrdd newydd o weithio, byddwn yn datblygu dull cynhwysiant digidol cadarn i gefnogi'r rhai na allant gael mynediad at ein gwasanaethau ar-lein. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ac yn datblygu dull cadarn o ymdrin â safonau i sicrhau bod gwefannau Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio yn blatfformau sy'n esiampl i eraill o ran hygyrchedd.

## SGILIAU DIGIDOL

Byddwn yn cynyddu sgiliau digidol ein gweithlu er mwyn manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan dechnoleg newydd i greu gwasanaethau gwell, mwy modern. Drwy ein gwasanaethau cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth byddwn yn cefnogi unigolion i ddod o hyd i hyfforddiant addas i roi iddynt y galluoedd digidol a'r hyder y bydd eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd a gwaith bob dydd.

## PERSONOLI

Drwy blatfformau digidol Gyrfa Cymru, bydd cwsmeriaid yn cael profiadau a gwybodaeth wedi'u personoli, wedi'u hysgogi gan ddeallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio er mwyn diwallu eu hanghenion

## ADNODDAU Â NODWEDDION GÊM

Byddwn yn ymgysylltu â phobl ifanc ac yn eu hysbrydoli i ehangu eu gorwelion gan ddefnyddio technegau â nodweddion gêm, ar blatfformau fel Minecraft



## DATA A DEALLTWRIAETH

Bydd ein dealltwriaeth, ein gwaith delweddu a'n gwaith mapio sy'n seiliedig ar ddata yn darparu adnodd hynod werthfawr i ysgogi datblygu polisïau a dylunio gwasanaethau




## DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL

Bydd y profiad a ddarparwn i gwsmeriaid drwy amryfal sianeli yn cael ei sbarduno gan ddatblygu cymwysiadau sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial i greu gwasanaeth gwell a mwy effeithlon i gwsmeriaid a gweithwyr



Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Sgiliau ar gyfer y dyfodol

**Bydd cenedlaethau'r dyfodol yn wynebu byd gwaith sy'n newid yn gyflym - un sy'n cael ei drawsnewid yn gyflymach nag ar unrhyw adeg arall mewn hanes.**


Gwyddom y bydd technoleg yn parhau i ddatblygu ac y bydd newidiadau demograffig yn ein cymunedau yn golygu bod swyddi newydd yn dod i'r amlwg ac y bydd swyddi'n esblygu ac yn diflannu, a hynny'n gyflymach nag erioed o'r blaen.

Bydd ein gwasanaeth cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth proffesiynol yn paratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith sy'n gwbl wahanol i fyd gwaith eu rhieni. Bydd llawer o bobl ifanc yn gweithio mewn swyddi nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd gan ddefnyddio technoleg nad yw wedi'i dyfeisio eto.

Byddwn yn sicrhau bod pobl sy'n gweithio yn cael eu cefnogi i addasu a dysgu sgiliau newydd wrth i'w swyddi newid yn barhaus a chael eu hail-lunio yn sgil datblygiadau mewn technoleg.

Er mwyn cyflawni ein nodau byddwn yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a helpu cwsmeriaid i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i chwarae eu rhan yn economi newydd Cymru. Drwy ein partneriaethau strategol, ein gweithgareddau cysylltu â chyflogwyr a'n dadansoddiad o wybodaeth am y farchnad lafur, byddwn yn nodi'r sgiliau eang ac arbenigol sydd fwyaf tebygol o fod yn bwysig i bobl, gweithwyr a busnesau Cymru nawr ac yn y dyfodol.

Mae Gyrfa Cymru wedi mapio'r sgiliau hollbwysig a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru gan ddefnyddio fframwaith sgiliau rheoli gyrfa, cyfarwyddyd ac anogaeth cadarn.



# CYSYLLTU Â CHYFLOGWYR I GREU DYFODOL DISGLAIR

“Rydym yn ddiolchgar i Gyrfa Cymru am roi’r cyfle i ni fynd i ysgolion. Mae angen y gefnogaeth arnom i gyrraedd yr ardaloedd o amddifadedd. Mae’n bwysig rhoi cyfleoedd i blant sydd heb y cyfleoedd hynny. Mae Gyrfa Cymru yn ffordd fuddiol iawn i ni gysylltu ag ysgolion. Felly mae’r gwasanaeth yn hollbwysig gan ei fod yn ein rhoi mewn cysylltiad uniongyrchol â phobl ifanc.”

Chwaraeon a Hamdden,
Buckingham Group Contracting Ltd

“Rydym yn dewis gweithio gyda’r plant hynny yr ystyrir eu bod yn fwy heriol. Rydym yn cyflwyno’r plant a’r ysgolion i’r hyn y gall y diwydiant adeiladu ei gynnig. Ein nod yw dangos iddyn nhw eu bod yn alluog a rhoi rhywbeth iddyn nhw anelu ato.”

Celtic Horizons

“Mae wedi ein helpu’n aruthrol. Dros ddwy flynedd, mae ein cysylltiadau ag ysgolion drwy Gyrfa Cymru wedi ein rhoi mewn cysylltiad â bron i 5000 o bobl ifanc.”

Screen Alliance Wales

“Mae gan Gyrfa Cymru rôl hollbwysig o ran cysylltu ysgolion a busnes. Nid yw pobl ifanc yn gwybod beth sydd ar gael felly gall ymweliad â chwmni neu sgwrs blannu hedyn a fydd yn gwneud byd o wahaniaeth.”

Alan Brayley, AB Glass

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae effaith anghymesur y pandemig Covid-19 ar y farchnad lafur i bobl ifanc ac oedolion yn golygu bod cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth yn bwysicach nag erioed.

Mae Gyrfa Cymru ynghyd â'i bartneriaid yn ymwybodol o'r creithiau y mae diweithdra ac incwm isel yn eu gadael ar lesiant pobl, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Gall ein gwasanaeth ataliol gefnogi pobl i wneud penderfyniadau gyrfa da a dewis y llwybr sy'n iawn iddyn nhw.

Drwy ein gwerthoedd a'n hegwyddorion, a thrwy weithio gydag eraill, byddwn yn gweithio mewn ffyrdd sy'n sicrhau ein bod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau llesiant y genedl:

| | |
|---|---|
| **ATAL** | **Deall yr hyn sydd wrth wraidd problemau er mwyn eu hatal rhag digwydd** |
| **CYDWEITHIO** | **Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy ar y cyd** |
| **CYNNWYS** | **Cynnwys poblogaeth amrywiol yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw** |
| **HIRDYMOR** | **Golwg hirdymor fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain** |
| **INTEGREIDDIO** | **Mabwysiadu dull integredig sy'n canolbwyntio ar y nodau llesiant pan fyddwn yn gosod amcanion llesiant** |



**Bydd ein gweledigaeth yn cefnogi'r saith egwyddor llesiant drwy:**

### CYMRU LEWYRCHUS

**Cefnogi datblygiad pobl ifanc ac oedolion i feithrin y sgiliau i reoli eu gyrfaoedd eu hunain. Bydd hyn yn creu manteision cymdeithasol ac economaidd i unigolion, teuluoedd a chymunedau yn ogystal â'r economi.**

### CYMRU GYDNERTH

**Bydd datblygu sgiliau cwsmeriaid yn helpu i feithrin cydnerthedd a'r gallu i addasu er mwyn ymdopi â'r heriau a ddaw yn sgil llwybrau gyrfa cynyddol gymhleth.**

### CYMRU IACHACH

**Mae cynyddu'r siawns na fydd unigolyn yn dod yn NEET ac y bydd yn parhau i fod yn weithgar mewn cymdeithas, yn cynyddu'r potensial i ennill cyflog ac yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant corfforol a meddyliol pobl.**

### CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS

**Bydd hyrwyddo cyfleoedd i bobl leol yn helpu i ddatblygu'r gronfa dalent ac yn lleihau bylchau mewn sgiliau gan helpu i wneud cymunedau'n ddeniadol ac yn hyfyw.**

### CYMRU SY'N FWY CYFARTAL

**Darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bob person ifanc ac oedolyn a'u cefnogi i oresgyn rhwystrau; codi dyheadau a herio stereoteipiau.**

### CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU

**Darparu gwasanaeth dwyieithog sy'n ymateb i anghenion unigolion a phartneriaid ledled rhanbarthau Cymru. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr gan gynnwys sgiliau Cymraeg.**

### CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG

**Cynyddu ymwybyddiaeth o'r marchnadoedd llafur yng Nghymru ac yn fyd-eang, gan gynnwys unrhyw newidiadau, heriau a chyfleoedd yn y dyfodol o fewn y meysydd addysg, yr economi a'r amgylchedd. Byddwn yn cysylltu pobl ag addysg a gwaith, a'r diwydiannau (e.e. technoleg werdd) sy'n gysylltiedig â'r rhain.**

# Cyflawni agenda Cymru

Bydd cyflawni'r weledigaeth Dyfodol Disglair yn golygu y byddwn yn cryfhau ein cyfraniad tuag at gefnogi nodau llesiant ac economaidd Llywodraeth Cymru ac yn mynd i'r afael â nifer o heriau a blaenoriaethau allweddol.

## Addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO)

Byddwn yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r weledigaeth strategol yng Nghymru drwy weithio gyda'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, darparwyr a phartneriaid allweddol i sicrhau bod cyngor a chyfarwyddyd proffesiynol ac annibynnol ar addysg a llwybrau gyrfa ar gael i bawb mewn addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

## Digidol 2030

Yn unol â'r diwygiadau i AHO byddwn yn codi ymwybyddiaeth ymysg ein cwsmeriaid o'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gefnogi economi Cymru. Ble mae ein gwaith cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth wedi nodi anghenion penodol, byddwn yn cefnogi unigolion i ddod o hyd i hyfforddiant addas i roi iddynt y galluoedd digidol a'r hyder y bydd eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd a gwaith bob dydd.

## Cwricwlwm i Gymru

Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion ar weithredu elfennau GPhCG newydd y Cwricwlwm i Gymru, gan eu cefnogi i gyflawni'r pedwar diben.

## Cynllun cyflogadwyedd

Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant Cymru'n Gweithio i gefnogi'r amcan o leihau nifer y bobl sy'n NEET, a chefnogi'r rhai sy'n ddi-waith, yn anweithgar yn economaidd a'r rhai sydd mewn perygl o golli eu swydd, i gael gwaith a hyfforddiant.

## Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid mewn awdurdodau lleol i gefnogi cyflwyno'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, gyda'n tîm arbenigol yn cynnig cyfarwyddyd gyrfaoedd a chyngor arbenigol i bobl ifanc, athrawon a rhieni ym mhob ysgol arbennig yng Nghymru.

## Cymraeg 2050

Byddwn yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy ein gwasanaeth dwyieithog a thrwy sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion yn gwbl ymwybodol o'r cyfleoedd y mae sgiliau Cymraeg yn eu cynnig o ran gyrfa yn y dyfodol.

## Strategaeth Ddigidol i Gymru

Byddwn yn cysoni ein trawsnewidiad digidol â'r Strategaeth Ddigidol i Gymru, gan fabwysiadu safonau digidol Cymru a chroesawu cyfleoedd i gydweithio er mwyn darparu'r gwasanaethau digidol gorau posibl i gwsmeriaid.

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Cydweithio a phartneriaethau

**Mae ein gweledigaeth yn nodi'r rôl allweddol y bydd cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth yn ei chwarae wrth helpu i greu dyfodol disglair i bobl yng Nghymru - ond ni allwn gyflawni dim ar ein pen ein hunain.**

Un o werthoedd craidd Gyrfa Cymru sydd wedi'i ymgorffori yn y ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw parodrwydd i gydweithio â rhanddeiliaid a sefydlu partneriaethau sy'n ein galluogi i gael yr effaith gadarnhaol fwyaf posibl ar ein cwsmeriaid.

Drwy ein presenoldeb mewn ysgolion, colegau ac ar y stryd fawr ledled Cymru, mae gennym le unigryw ym mywydau pobl Cymru a'u cymunedau.

Drwy gefnogi pobl ifanc ac oedolion, cynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gyfleoedd, anghenion sgiliau a'r farchnad lafur leol, bydd ein gwasanaethau'n chwarae rhan allweddol wrth helpu i ddatblygu economïau lleol mwy gwydn.

Mae ein partneriaethau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru wedi'u datblygu'n dda, ond rydym yn cydnabod bod modd gwella hyn bob amser.

Rydym yn gweithio'n agos gyda busnesau, cyrff y sector, awdurdodau lleol, bargeinion dinesig a thwf a phartneriaethau sgiliau rhanbarthol i sicrhau bod ein gwasanaethau cyfarwyddyd ac anogaeth yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a'r sgiliau sy'n ofynnol i lwyddo.

Byddwn yn ehangu'r ystod o fusnesau yr ydym yn cysylltu â nhw ac yn sicrhau bod ein gwybodaeth am y farchnad lafur yn gadarn, yn amserol ac yn berthnasol i bobl Cymru.

Mae ein gweithgareddau cysylltu â busnesau yn creu cysylltiadau ag ysgolion, gan ddarparu profiadau cysylltiedig â gwaith ac amlygiad i fyd gwaith i bobl ifanc, yn ogystal â helpu busnesau i wella eu henw da yn lleol.



Bydd gan bob ysgol a choleg AB yng Nghymru gynghorydd gyrfa penodedig i sicrhau eu bod yn cael y gwasanaethau cymorth gyrfaoedd cywir i ddiwallu anghenion eu myfyrwyr. Rydym yn gweithio'n agos ag Estyn, consortia rhanbarthol a chyrff fel Colegau Cymru i ddatblygu a darparu gwasanaethau i bobl ifanc.

Byddwn yn cryfhau ein cysylltiadau gwaith â sefydliadau addysg uwch drwy archwilio cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau newydd a chryfach. Byddwn yn treialu ffyrdd o weithio gyda'n gilydd er budd gorau cymunedau lleol a'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.

**"Drwy ein presenoldeb mewn ysgolion, colegau ac ar y stryd fawr ledled Cymru, mae gennym le unigryw ym mywydau pobl Cymru a'u cymunedau."**

Mae gweithio mewn partneriaeth yn un o nodweddion craidd Cymru'n Gweithio - rydym yn gweithio'n agos â chydweithwyr yn llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU i gefnogi pobl Cymru yn ogystal â darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr a busnesau.

Rydym yn cydnabod bod angen i ni, drwy ein gweledigaeth newydd, adeiladu ar y dulliau hyn a mynd gam ymhellach. Byddwn yn ceisio canolbwyntio mwy ar gyd-ddatblygiadau, ar-lein ac all-lein mewn lleoliadau amlasiantaeth yn y gymuned leol. Rydym yn ymwybodol o'r heriau unigryw sy'n wynebu cymunedau gwledig o ran cael eu hynysu ac yn bwriadu gweithio'n agosach ag asiantaethau eraill i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

**Lle y gall hynny ychwanegu gwerth i'r cwsmer, byddwn yn chwilio am gyfleoedd ar gyfer:**

### CYDLEOLI

gan weithio gyda phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer sy'n galluogi asiantaethau i ddiwallu eu hanghenion yn haws. Gallai hyn gynnwys adeiladau a rennir sy'n dod â gwasanaethau cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth, lles, iechyd a llesiant ynghyd.

### CYDWEITHREDU

gyda chyflogwyr, economegwyr y farchnad lafur ac arbenigwyr eraill, darparwyr hyfforddiant, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a sefydliadau gwirfoddol. Rhannu dealltwriaeth a gwybodaeth er budd gorau ein cwsmeriaid.

### CYD-GREU

adnoddau ac offer datblygu gyrfa o ansawdd uchel sy'n cefnogi partneriaid, gweithwyr proffesiynol a phara-weithwyr proffesiynol i ddarparu cyfarwyddyd ac anogaeth gyrfa proffesiynol, diduedd i gwsmeriaid.

# CEFNOGI POB PERSON IFANC I GREU DYFODOL DISGLAIR

"Roedd fy mhlentyn yn bryderus iawn am y ffaith bod cymaint o newidiadau'n digwydd yn ei flwyddyn olaf yn yr ysgol ac yn ystod y pandemig ac yn teimlo dan bwysau gydag opsiynau a gyrfaoedd. Roedd yn bleser sgwrsio gyda'r cynghorydd gyrfa ac fe wnaeth leddfu pryderon fy mhlentyn. Cafodd ei phroffesiynoldeb a'i mewnbwn effaith fawr arnom."

Rhiant myfyriwr Blwyddyn 11

"Roedden nhw'n anhygoel ac yn help mawr i mi agor fy llygaid ac ehangu fy ngorwelion o ran pa opsiynau y gallaf eu dewis ac roedd hynny'n help i mi wneud fy mhenderfyniad terfynol."

Myfyriwr blwyddyn 11

"Alla'i ddim diolch ddigon i chi am eich holl help gyda hyn. Rwyf wedi bod ar goll braidd yn ceisio datrys hyn ac wedi bod yn bryderus yn ei gylch. Dwi i ddim yn credu eich bod chi'n gwybod yn iawn cymaint y mae hyn wedi ein helpu ni fel teulu."

Rhiant person ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol

"Rhoddodd y cynghorydd gyrfa help i mi ddarganfod yr hyn yr oeddwn i eisiau ei wneud a rhoddodd yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnaf i wneud penderfyniad. Fe wnaeth i mi deimlo fy mod i'n gallu cyflawni hynny a bod fy newisiadau i cyn bwysiced â rhai pawb arall. Fe wnaeth i bopeth ymddangos yn bosibl ac mae'n gefnogol iawn."

Person ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Neb yn cael ei adael ar ôl...

**Drwy ein gweledigaeth o greu dyfodol disglair i bobl Cymru, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau yn hygyrch i bawb ac yn darparu cefnogaeth well fel nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.**

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i nodi'r rhai sydd angen cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth gwell a'u cefnogi i oresgyn rhwystrau a chodi eu dyheadau.

Drwy Cymru'n Gweithio, byddwn yn parhau i gefnogi pobl yn y system gyfiawnder, gan adeiladu ar ein gwaith llwyddiannus mewn carchardai. Dyrennir cynghorydd gyrfa Cymru'n Gweithio i bob carchar yng Nghymru a fydd yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac asiantaethau allweddol i sicrhau bod carcharorion yn cael cefnogaeth dda cyn eu rhyddhau, ar y pwynt trothwy ac yna ar ôl eu rhyddhau. Byddwn yn parhau i dreialu cymorth i'r carchar menywod yn Eastwood Park fel bod carcharorion benywaidd sy'n hanu o Gymru yn cael cefnogaeth briodol.

Byddwn yn cefnogi cyflwyno'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid* gyda'n partneriaid mewn awdurdodau lleol, gan sicrhau bod pobl ifanc yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt wrth iddynt bontio o addysg i addysg bellach, gwaith neu hyfforddiant. Mewn lleoliadau ysgol, byddwn yn adeiladu ar ein cefnogaeth i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, gan weithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill i gynorthwyo pobl ifanc i bontio'n llwyddiannus o addysg. Bydd ein cynghorwyr arbenigol yn darparu cyfarwyddyd gyrfaoedd unigol a sesiynau hyfforddi a grŵp i bobl ifanc ag ADY a grwpiau eraill sy'n agored i niwed.

Byddwn yn parhau i gyflawni'r prosiect Sbardun**, gan gefnogi pobl ifanc 11-19 oed y nodwyd eu bod mewn perygl o ddod yn NEET (nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant) drwy brofiadau cysylltiedig â gwaith a chyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth.

Fel rhan o'n dull cynhwysol byddwn yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliadau heblaw yn yr ysgol. Bydd hyn yn cynnwys y rhai sy'n cael eu haddysgu gartref.

Rydym yn cydnabod bod hygyrchedd, mynediad ar-lein a thlodi data i gyd yn ffactorau a all allgáu pobl o bob oed yn ddigidol a'u hatal rhag cael y gwasanaethau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt. Byddwn yn datblygu dull mwy cadarn o sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu cefnogi gan gynnig digidol â chymorth gan gynnwys ystod o sianeli a chynnwys priodol i gwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ein platfformau digidol a'n deunydd gan gynnwys ein cynyrchiadau fideo a sain yn esiampl o ran hygyrchedd a bod y wybodaeth a'r gwasanaethau rydym yn eu cyhoeddi ar gael i bawb, yn enwedig y rhai a allai fod ag anghenion yn ymwneud â'u golwg neu'u clyw, neu anghenion gwybyddol neu echddygol.

> **"Byddwn yn nodi'r rhai sydd angen lefel uwch o gyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth ac yn eu cefnogi i oresgyn rhwystrau a chodi eu dyheadau"**

Gwyddom fod effaith economaidd y pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar gymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME). Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ein gwasanaethau yn hygyrch i bob cymuned yng Nghymru a bod unrhyw rwystrau yn cael eu dileu.

Byddwn yn adeiladu ar ein partneriaethau llwyddiannus gyda sefydliadau fel Stonewall Cymru i ddarparu hyfforddiant i staff Gyrfa Cymru er mwyn sicrhau bod gan ein gweithlu y wybodaeth, yr ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth i ddarparu gwasanaethau i'n holl gwsmeriaid.

Byddwn yn adeiladu ar ein hadnoddau addysgu llwyddiannus i bobl ifanc ar stereoteipio ar sail rhyw, gan adeiladu ar yr adborth cadarnhaol gan athrawon a darparu sesiynau sy'n codi mwy o ymwybyddiaeth ac sy'n sicrhau gwell dealltwriaeth o'r mater i bobl ifanc. Bydd hyn hefyd yn parhau i fod yn nodwedd allweddol o'n hymgyrchoedd marchnata o ran sectorau allweddol fel adeiladu, peirianneg a thechnoleg a defnyddio modelau rôl cadarnhaol i gyflwyno negeseuon allweddol.

*Bydd ein gweithgaredd i gefnogi cyflwyno'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn destun adolygiad gan Lywodraeth Cymru
**Ariennir Sbardun gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop tan fis Mawrth 2023

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Gweledigaeth ar gyfer cyfnod heriol

**Mae effaith economaidd a chymdeithasol y pandemig Covid-19, Brexit a gweithle sydd eisoes yn cael ei chwyldroi gan dechnoleg yn cyfuno i greu storm berffaith yn y farchnad lafur yng Nghymru a ledled y byd.**

Rydym yn byw yn yr hyn y gellir ei ddisgrifio'n gyfnod cyfnewidiol, ansicr, cymhleth ac amwys. Mae ein gwasanaethau yn rhoi ymdeimlad o obaith, gwytnwch ac optimistiaeth i unigolion er mwyn creu bywoliaeth gynaliadwy, yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig.

Mae diwydiannau, daearyddiaeth a phobl yn bwysig. Yng Nghymru mae rhai sectorau yn ehangu tra bod eraill yn dirywio. Ceir amrywiadau rhanbarthol a lleol o ran swyddi, hyfforddiant a chyfleoedd eraill. Mae mwy o bobl yn gorfod newid eu swyddi'n amlach nag yr oeddent yn y gorffennol.

Rydym wedi gweld angen cynyddol am gymorth gyrfaoedd sy'n cael ei ysgogi gan effaith Covid-19 gyda'r rhai sy'n ennill y cyflogau isaf yng Nghymru ddeg gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael eu heffeithio gan y pandemig na'r rhai ar y cyflogau uchaf.

Yn ogystal â'r rhai ar gyflogau isel, mae Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd yn tynnu sylw at y ffaith bod y cythrwfl economaidd a achosir gan y coronafeirws hefyd yn cael ei deimlo fwyaf gan bobl ifanc, menywod a'r rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME).

Mae Covid-19 wedi arwain at gyfraddau uwch o unigolion nad ydynt mewn addysg, gwaith a hyfforddiant (NEET), gan gynnwys dadleoli pobl o rai sectorau allweddol gan gynnwys manwerthu, twristiaeth a lletygarwch. Mae angen i ni ddod o hyd i atebion sy'n sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Rydym wedi addasu ein gwasanaethau yn unol â hynny er mwyn darparu mwy o gefnogaeth ar-lein i bobl ifanc, rhieni, athrawon ac oedolion.

> **"Mae Gyrfa Cymru yn barod i ymateb i'r her o gefnogi unigolion gyda'u trawsnewidiadau, eu dewisiadau a'u penderfyniadau gyrfa, yn enwedig y rhai mwyaf anghenus."**

Byddwn yn cymryd camau cynnar sy'n cynnwys darparu gwasanaethau cymorth gyrfaoedd ataliol, integredig ac adferol i bobl ifanc ac oedolion. Mae hyn yn galw am fannau lleol er mwyn cael mwy o drafodaeth am yrfaoedd mewn cymunedau lleol. Mae angen mynediad hawdd ar bobl at gymorth gyrfaoedd cyfunol a diduedd wedi'i dargedu a'i deilwra i'w hanghenion penodol.

Daw Brexit hefyd â rhagor o ansicrwydd. Bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn cyflwyno heriau newydd sy'n ein gorfodi i fyfyrio ar y ffordd orau o ddarparu cefnogaeth i bobl ifanc, oedolion, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant a phartneriaid cymunedol lleol.

Mae Gyrfa Cymru yn barod i ymateb i'r her o gefnogi unigolion gyda'u trawsnewidiadau, eu dewisiadau a'u penderfyniadau gyrfa, yn enwedig y rhai mwyaf anghenus.

Mae'r OECD, y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO), UNESCO, y Sefydliad Hyfforddi Ewropeaidd (ETF), y Comisiwn Ewropeaidd a'r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Hyfforddiant Galwedigaethol wedi dod ynghyd i annog llywodraethau a rhanddeiliaid allweddol eraill i fuddsoddi mewn cyfarwyddyd gyrfaoedd.

# Gweledigaeth sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth a data

**Seiliwyd y weledigaeth hon ar ddirnadaeth a barn mwy na 3,500 o bobl ifanc, rhieni/ gofalwyr, gweithwyr Gyrfa Cymru, busnesau, athrawon, darparwyr hyfforddiant, darparwyr ôl-16 ac ôl-18 a llawer mwy.**

Yn 2020 fe wnaethom gynnal adolygiad strategol o'r busnes i sicrhau bod ein gweledigaeth newydd yn seiliedig ar dystiolaeth - gan ddwyn ynghyd bopeth yr ydym wedi'i ddysgu drwy gyflawni Newid Bywydau a'i wella yn sgil dirnadaeth ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid ledled Cymru.

O'r dadansoddiad hwn, daeth tair thema allweddol i'r amlwg:

- **Mwy o hyder mewn rôl allweddol technoleg i'n cefnogi a'n galluogi i gyflwyno ein gwasanaethau, gan ddarparu profiad cydgysylltiedig, ar amryfal sianeli i gwsmeriaid**
- **Pwysigrwydd cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth ar gyfer rheoli'r broses o wneud penderfyniadau gyrfa**
- **Sicrhau nad yw pobl yn cael eu gadael ar ôl a chynnig gwasanaethau cyfarwyddyd gyrfaoeddd ac anogaeth personol drwy wasanaethau digidol ac annigidol.**

Mae neges glir gan bobl ifanc ac oedolion bod yn rhaid i wasanaethau Gyrfa Cymru fod ar gael yn ystod y cyfnodau pontio allweddol hynny yn eu bywydau. P'un a yw rhywun eisiau newid gyrfa, yn dewis pynciau neu'n dewis llwybrau ar ôl addysg, bydd Gyrfa Cymru yno i gynnig cymorth.

Daeth yn amlwg ei bod yn well gan bobl ifanc ac oedolion gyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth wyneb yn wyneb a byddwn yn parhau i roi'r cynnig hwn wrth wraidd ein model cyflwyno gwasanaethau, gan sicrhau ei fod yno i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

Gofynnodd rhieni a gofalwyr am fwy o gyfathrebu gan Gyrfa Cymru a chynnydd mewn gweithgareddau cysylltu â chyflogwyr er mwyn gwella cyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith myfyrwyr ynghyd â pharatoi pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo ym myd gwaith.

**"Mae neges glir gan bobl ifanc ac oedolion bod yn rhaid i wasanaethau Gyrfa Cymru fod ar gael yn ystod y cyfnodau pontio allweddol hynny yn eu bywydau."**

Mynegodd pobl ifanc mewn addysg ei bod yn well ganddynt gael cymorth gyrfaoedd mwy strwythuredig a chyson a oedd yn rhan o'u hamserlen, tra bod eraill eisiau gweld gwell mynediad at wybodaeth berthnasol am yrfaoedd.

Rydym yn hyderus bod y weledigaeth hon yn adlewyrchu disgwyliadau ein cwsmeriaid a'n partneriaid i Gyrfa Cymru fod yn sefydliad modern, perthnasol sy'n ysbrydoli ac sydd yno i bobl ar yr adegau pwysig.

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Sicrhau gwerth a mesur effaith

**Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn asesu ac yn adrodd yn barhaus ar yr effaith y bydd ein gwasanaethau yn ei chael ar ganlyniadau addysgol, economaidd a llesiant pobl Cymru. Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o ddata, gan olrhain cynnydd a chanlyniadau myfyrwyr, pobl ifanc agored i niwed ac oedolion. Byddwn yn meithrin ein cysylltiadau ag academyddion ac ymchwilwyr i ddatblygu dealltwriaeth newydd er mwyn gwella ein gwasanaethau a datblygu polisïau.**

Mae cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth yn cefnogi canlyniadau addysgol, economaidd a llesiant pobl. Byddwn yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb i ymchwilio i ddatblygu hyb gwybodaeth newydd sy'n hysbysu darparwyr cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eraill ac sy'n gweithio ar y cyd â nhw. Byddwn yn nodi tueddiadau o fewn cymunedau, sectorau a demograffeg ac yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglenni a mentrau newydd i fynd i'r afael â materion penodol sy'n dod i'r amlwg.

Byddwn yn ymchwilio i'r manteision ariannol y mae gwasanaethau Gyrfa Cymru yn eu darparu i'r economi ehangach a gwerth ychwanegol gweithgareddau fel:

- **lleihau nifer y bobl sy'n NEET**
- **gwella ymwybyddiaeth o swyddi, paru sgiliau a chysylltu â chyflogwyr o fewn y cwricwlwm a'r tu allan iddo**
- **gwella sgiliau hanfodol, digidol a rheoli gyrfa**
- **cynyddu mynediad at waith, hyfforddiant, entrepreneuriaeth a/neu weithgareddau gwirfoddol**
- **gwella llesiant drwy gymorth gyrfaoedd i helpu i leihau dibyniaeth ar y wladwriaeth.**

Er mwyn dangos enillion ar y buddsoddiad yn ein gwasanaethau, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â dmh associates ar enillion sy'n ychwanegu gwerth ac effaith gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru. Mae'r canlyniadau interim yn dangos enillion sylweddol ar fuddsoddiad.



Mae ein gwaith modelu diweddar wedi dangos bod y gweithgareddau a ddadansoddwyd hyd yma, sy'n cynnwys oddeutu £15 miliwn o'n gwariant blynyddol nodweddiadol, yn darparu buddion ariannol hirdymor o fwy na £35 miliwn i'r Trysorlys (yn nhermau gwerth net presennol).

Byddwn yn adeiladu ar y dadansoddiad elw ar fuddsoddiad hwn i fynd i'r afael â rhagor o elfennau'r model theori newid ar gyfer cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth ac yn ymgorffori hyn yn ein gwaith cynllunio a chyflwyno gwasanaethau er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n cynnig gwerth go iawn am arian i bobl Cymru.

Rydym yn bwriadu ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer dadansoddi data Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio ymhellach, rhoi proses casglu data newydd ar waith gan gynnwys hapdreialon rheoli posibl, a chysylltu â mwy o bartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i fireinio rhagdybiaethau a chyd-ddatblygu astudiaethau o effaith arloesol. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth er mwyn gwneud defnydd da o ddata agored a gwybodaeth am y farchnad lafur.

> **"Byddwn yn nodi tueddiadau mewn cymunedau, sectorau a demograffeg ac yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg..."**

Rydym wedi cytuno ar ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) i arwain a llywio ein cynlluniau strategol a gweithredol. Bydd y rhain yn cael eu monitro bob mis a bydd y cynnydd ac unrhyw anawsterau yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid newydd. Byddwn yn cynhyrchu dangosfyrddau perfformiad a dolenni adborth i wella perfformiad.

Byddwn hefyd yn cydweithio â sefydliadau ymchwil yn y DU, yn Ewrop ac yn rhyngwladol er enghraifft, gan gymharu dulliau o wneud diagnosis o anghenion cwsmeriaid a'u hasesu, a mesurau effaith sy'n gysylltiedig â gwell canlyniadau addysgol, economaidd a llesiant. Byddwn yn parhau i rannu arferion gorau gyda Skills Development Scotland (SDC), Northern Ireland Careers Service a'r National Careers Service yn Lloegr a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Y tu allan i'r DU, rydym yn bwriadu cydweithredu â'r National Centre for Guidance in Education yn Iwerddon, Canadian Career Development Foundation (CCDF) a'r Careers Industry Council for Australia (CICA) i rannu offerynnau ymchwil, datblygu dulliau cydweithio a chynhyrchu canfyddiadau allweddol ar asesu a mesur effaith gwasanaethau cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth.

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Model theori newid

Mae'r model theori newid yn asesu effaith tymor byr, tymor canolig a hirdymor gwasanaeth cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth ar y canlyniad i unigolyn a allai gynnwys:

## Ffactorau cyd-destunol

Amgylchiadau unigol e.e. rhywedd, oedran, ethnigrwydd, anghenion addysgol arbennig a/neu anabledd, locws rheolaeth, lefel y pryder, chwilfrydedd, hyder, gwybodaeth, sgiliau ac aeddfedrwydd galwedigaethol

## Mewnbynnau

Cymorth gyrfaoedd cynhwysol digidol ac annigidol e.e. gwasanaethau cymorth gyrfaoedd ataliol, integredig ac adfer i bobl ifanc ac oedolion er mwyn pontio'n gadarnhaol i addysg a gwaith. Deall y sgiliau sy'n ofynnol i lwyddo yn y farchnad lafur a chyfrannu at economi Cymru yn y dyfodol

## Canlyniadau uniongyrchol

Gwell cymhelliant, sgiliau personol a sylfaen wybodaeth, dealltwriaeth o'r hunan, ymwybyddiaeth o gyfleoedd, y gallu i chwilio am swydd, y gallu i addasu gyrfa a gwytnwch, mwy o ymwybyddiaeth o gyfalaf dynol, cymdeithasol a diwylliannol a llai o bryder a straen

## Canlyniadau canolraddol

Gwell strategaethau chwilio am swydd, ymwybyddiaeth alwedigaethol a chyfatebiaeth sgiliau, cynyddu cyfranogiad yn y farchnad lafur, ehangu'r gronfa dalent sydd ar gael, lleihau diweithdra a chostau budd-daliadau cysylltiedig, cynyddu cyfranogiad cyflogwyr a gwirfoddolwyr yn y cwricwlwm newydd, lleihau ymddygiad troseddol a gwella canlyniadau addysgol, economaidd a llesiant

## Canlyniadau tymor hwy

Mwy o ddefnydd o gyfleoedd, mwy o botensial i ennill cyflog, lefelau cyrhaeddiad gwell, lefelau cynhyrchiant gwell, costau recriwtio a throsiant is a llai o gamgyfatebiaeth rhwng sgiliau a bylchau sgiliau

Gyrfa Cymru
Careers Wales